# Y Pwyllgor Darlledu

## Cofnodion (BCC(3)-07-08)

**Dyddiad: 9 Mehefin 2008**
**Amser: 1.00pm – 3.37pm**
**Lleoliad: ATRiuM, Prifysgol Morgannwg**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Chris Reading, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru
Pat Loughrey, Cyfarwyddwr - Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC
David Donovan, Swyddog Cenedlaethol BECTU (Undeb Darlledu Adloniant Sinematograffeg a Theatr)
Jeremy Dear, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
Kate Carr, Cadeirydd Cyngor Gweithredol Cymru, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
Meic Birtwistle, Aelod o Gyngor Gweithredol Cymru, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
Lawrence Shaw, Trefnydd dros Gymru, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
Simon Crine, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
Gwenllian Carr, Rheolwr Cenedlaethol Cymru
Emyr Byron Hughes, Ymgynghorydd yn gweithio ar ran Digital UK
Aled Eirug – Cynghorydd Pwyllgor

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn aelod o Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr.

### 2: Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y pwyllgor i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

Papur:BCC(3)-07-08(p.1) – y BBC

BCC(3)-07-08(p2) – BECTU

BCC(3)-07-08(p3) – Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

BCC(3)-07-08(p4) – Digital UK

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y BBC i ddarparu nodyn ynghylch ei chynlluniau ar gyfer cyfathrebu drwy ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, yn nhermau'r canran a warir yng Nghymru a beth yw goblygiadau hyn ar gyfer nifer yr oriau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a ddaperir yng Nghymru.

Cytunodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i ddarparu nodyn ar elw ITV a gynhyrchwyd yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd a faint o'r elw hwnnw a ddaw o Gymru.

Cytunodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i ddarparu nodyn ar y gyfran (sawl munud yr awr) o hysbysebu ychwanegol a fyddai ei hangen i gynnal lefelau presennol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Cytunodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i ddarparu tystiolaeth ar werth cyfredol lleoliad ITV yn y sbectrwm i'r sianel ei hun.

Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr i ddarparu copi o adroddiad a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caerdydd.

Cytunodd Digital UK i ddarparu nodyn ar drosglwyddydd Preseli.